Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Carol Davies
Ysgol Dyffryn Cledlyn VC CiW
Drefach Llanybydder
Ceredigion
SA40 9XS

01/07/2025

Annwyl Carol Davies

**Ymweliad Interim:** Mehefin 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Dyffryn Cledlyn yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â'r unig argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol ac un blaenoriaeth gwella. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Sicrhau cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd ehangach

- Mae athrawon yn sicrhau cyfleoedd diddorol i'r disgyblion ddysgu am amrywiaeth o wledydd ar draws y byd, gan blethu'r meysydd dysgu a phrofiad, lle'n briodol. Maent yn bachu ar gyfleoedd bwriadus i gael ymwelwyr i'r ysgol i gefnogi profiadau'r disgyblion.
- Mae llais y disgybl yn ganolog i'r gwaith, gyda'r disgyblion hŷn yn cael cyfleodd i weithio'n annibynnol wrth gasglu gwybodaeth am y wlad benodol.
- Mae disgyblion yn cael cyfleoedd diddorol i rannu syniadau a holi disgyblion ac oedolion sydd yn byw yn y gwledydd er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth.
- Maent yn cymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus wrth rannu gwybodaeth gyda'u cyfoedion ar draws yr ysgol.
- Mae astudio amrediad cyfoethog o wledydd ar draws y byd wedi gwella dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill ac wedi ehangu eu gorwelion.

Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

## Datblygu ymhellach amrywiaeth o ddulliau cyfrifo er mwyn datblygu rhuglder dysgwyr mewn mathemateg er mwyn eu caniatáu i ddewis y dulliau mwyaf effeithiol i ddatrys problemau a chymhwyso eu sgiliau mathemateg ar draws y cwricwlwm

- Mae arweinwyr wedi sefydlu system gadarn sy’n eu caniatáu i hunanwerthuso a monitro cynnydd medrau rhifedd y disgyblion yn effeithiol. Mae llywodraethwyr a staff yn cydweithio’n llwyddiannus er mwyn sicrhau datblygiad priodol yn erbyn y flaenoriaeth. Maent yn craffu ar lyfrau ac yn trafod cynnydd gyda’r disgyblion sy’n rhoi darlun clir iddynt ac yn eu galluogi i herio’r ysgol ymhellach.
- Mae’r staff yn derbyn cefnogaeth werthfawr oddi wrth athrawon arbenigol yr awdurdod lleol ac yn cydweithio’n fuddiol gydag ysgolion y clwstwr. Gyda’i gilydd maent wedi datblygu cyd-ddealltwriaeth o’r cwricwlwm ac wedi cynllunio a mapio medrau mathemateg a rhifedd ar draws y camau cynnydd.
- Yn y blynyddoedd cynnar mae athrawon yn cynllunio cyfleodd addas i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth gadarn o ystod eang o ddulliau cyfrifo. Maent yn cynllunio cyfleoedd dyddiol i ddisgyblion adalw eu gwybodaeth sy’n dwysau gallu’r disgyblion i ddefnyddio eu medrau mathemategol.
- Erbyn brig yr ysgol mae athrawon yn cynllunio cyfleodd bwriadus i ddisgyblion ddefnyddio eu dealltwriaeth o ddulliau cyfrifo i ddatrys problemau. Maent yn manteisio ar gyfleoedd bywyd bob dydd i ddatblygu medrau rhifedd y disgyblion ymhellach. Mae hyn yn meithrin diddordeb a chwilfrydedd disgyblion wrth iddynt gyd-weithio i ddatrys problemau. Mae hyn yn arwain at ddisgyblion hyderus sy’n barod i fentro wrth gymhwyso eu medrau mathemateg mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6813370

Yn gywir

L Miles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol